# Cenn@d

MEDI 27 2023 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 135


## Newyddion Bro Cemaes Dyffryn Teifi

### Cyfarfod Sefydlu Sian Elin

Ar ddiwrnod braf o fis Medi, roedd yna ddathliad go iawn ym Mhontyweli, ger Llandysul, pan gafodd y Parchedig Sian Elin Thomas ei sefydlu yng Nghapel Pen-y-bont. O dan lywyddiaeth fedrus y Parchedig Eirian Wyn Lewis, Mynachlog-ddu, cawsom oedfa hyfryd dros ben. Fe rannodd y Parchedig Guto Prys ap Gwynfor, sydd wedi bod yn gefnogol iawn i'r capel, bregeth heriol ac ysbrydoledig. Diolch i bawb wnaeth gymryd rhan i wneud y gwasaneth yn un llawen.

Mae'r ofalaeth newydd, sef Bro Cemaes Dyffryn Teifi, yn edrych ymlaen at gydweithio o dan arweinyddiaeth Sian Elin a'i gŵr cefnogol, Dylan. Cafwyd cyfle i gymdeithasu dros baned a lluniaeth ysgafn yn y festri yn dilyn y gwasanaeth.



Pawb wnaeth gymryd rhan yn y Gwasanaeth Sefydlu



Sian Elin a Dylan gyda'r Parchg Ddr Densil Morgan a'i wraig, Ann, a'r Parchg Guto Prys Ap Gwynfor a'i wraig, Siân

### Prosiect Celf y Graig

Yn ystod tymor yr haf fe fu Sian Elin a dwy ysgol, sef Ysgol y Ddwylan ac Ysgol Uwchradd Emlyn, yn cydweithio i addurno waliau festri'r Graig, Castellnewydd Emlyn. Ac ar ddechrau mis Medi daeth y disgyblion i'r festri i weld y cyfan wedi ei arddangos. Braf yw cydweithio â'r ysgolion lleol, ac edrychwn ymlaen at ei weld yn parhau.



Disgyblion Ysgol y Ddwylan



Disgyblion Ysgol Uwchradd Emlyn


'Cymerwch frecwast'
Tudalen 2

Wythnos Ryngwladol o Weithredu dros Heddwch yn Wcráin, 30 Medi–8 Hydref
Tudalen 3

Gair Duw ar Waith gan Denzil I. John
Tudalen 8

# ‘Cymerwch frecwast’

Drwy drugaredd, mae yna rai pethau’n parhau, a’r pethau hynny yn aml ydi’r pethau gorau. Felly yn union yr oedd hi fore Llun, 11 Medi, i gylch Myfyrdod a Gweddi Henaduriaeth Conwy a Dyfrdwy. Fe gawsom gyfarfyddiad, ond cwrdd i be, dychmygaf chi’n gofyn: am goffi, am ginio, neu bwyllgor? Fe roddaf gliw ysgrythurol i chi – Ioan 21:12: ‘Dewch,’ meddai Iesu wrthynt, ‘**cymerwch frecwast**’. Do, dyna chi – fe ddaru ni gwrdd i fwynhau pryd cyntaf y dydd hefo’n gilydd. Roedd wyth o fwytawyr awchus, ond yn anffodus roedd dau’n methu dod atom, sef y Parchedigion Brian Wright a Dafydd Rees Roberts.



Rhes ôl, o’r chwith i’r dde: Alan Spencer, Richard Glyn Jones, Iorwerth P. Jones, Eric Greene, Gerwyn Roberts, Owain Davies
Rhes flaen: Trefor Lewis, Helen Wyn Jones

Rydym fel cylch wedi bod yn cwrdd yn fisol am o leiaf 30 mlynedd. Cynnal y gweithgareddau ar y dechrau yng ngwahanol eglwysi ein gofalaethau. Wedyn, yn ddiweddarach, penderfynwyd cwrdd ar aelwydydd ein gilydd. Covid wedyn yn dod i ddifetha popeth i bawb ym mhob man. Bodloni wedyn ar Zoom.

Fel cyd-ddigwyddiad hollol hyfryd, sylweddolais fod 30 mlynedd ers i mi gael fy ordeinio a chael fy sefydlu yn fymryn o Weinidog yng ngofalaeth Ysbyty Ifan, Henaduriaeth Dyffryn Conwy, yn 1993. Cyn i ni ymadael manteisiais ar y cyfle i rannu hynny gyda fy nghyfeillion. Ac er i mi ymddeol yn gynnar i Ddyffryn Clwyd yn 2007, rwyf wedi parhau i fynychu eu cyfarfodydd heb ollwng gafael o gwbl! Dyma eli i’r galon, llonyddwch i’r meddwl, a heulwen i’r ysbryd!

Cafwyd cyfle hefyd i longyfarch y Parchedig Owain Davies ar gael ei dderbyn i’r Orsedd. Diolchwyd i’r Parchedigion Trefor Lewis a Helen Wyn Jones am drefnu ar ein rhan. Roeddem yn torri tir newydd, ac fe lwyddodd eu gweledigaeth!

Terfynaf yn ysgrythurol fel y dechreuais: ‘yna cawn weld wyneb yn wyneb’ (1 Corinthiaid 13:12). Dyna’n sicr sut roedd pob un ohonom yn teimlo wrth ymlwybro i Dal-y-cafn y bore heulog hwnnw. Does dim byd tebyg iddo.

Yn y llun gwelir yr wyth wedi eu bodloni. Un yn unig o’r criw gwreiddiol sy’n aros, ond ymunodd eraill.

*Iorwerth P. Jones*
*Rhuthun*

# Blasu ac yfed dros gyfiawnder yng Ngŵyl Fwyd a Diod yr Wyddgrug

Ar y trydydd penwythnos ym mis Medi fe fydd yna Ŵyl Fwyd a Diod yn cael ei chynnal ar faes parcio Stryd Newydd yn yr Wyddgrug. Mae’r maes parcio yn cefnu ar gapel Bethesda, y Presbyteriaid, yno ac fe fydd miloedd yn pasio heibio iddo ar eu ffordd yn ôl a blaen i’r ŵyl.

Gan fod yna lawer o eglwysi’r dref yn defnyddio’r maes parcio ar y Sul, fe ellir bod yn gweld y cyfan yn achlysur i’w osgoi, canslo oedfaon a pheidio â dod ar y cyfyl. Ond eleni fe welodd aelodau Eglwys Bethesda gyfle i gysylltu efo’r torfeydd. Gosodwyd stondin o nwyddau Masnach Deg i godi ymwybyddiaeth yn y festri, a chynnig te a choffi Masnach Deg a bisgedi a chacennau wedi eu gwneud efo’r cynnyrch i bwy bynnag a ddeuai i mewn.

Gan fod Cymorth Cristnogol wedi bod yn cynnal sesiynau blasu coffi yn yr Eisteddfod, fe aed ati i ofyn a allen ni wneud yr un peth ar ddydd Sadwrn yr Ŵyl Fwyd. Daeth Llinos Roberts atom o’r mudiad yng Nghymru, a dod â’r coffi o Kenya ac El Salvador a Cholombia, a’r faner fawr yn darlunio’r argyfwng hinsawdd rydym yn ei wynebu, efo hi.

Felly, ar gornel o balmant y tu allan i’r capel gyferbyn â mynedfa’r ŵyl, fe gawsom gyfle i wneud sesiwn blasu coffi a chodi ymwybyddiaeth am ymgyrch Cymorth Cristnogol: ‘Make Polluters Pay’ gydag arwyddion a phosteri yn annog pobl i ddeffro i argyfwng y tyfwyr hyn tra mae coffi yn dal gennym. Gallwch ddilyn yr ymgyrch




Llinos Roberts (ar y chwith) efo rhai o’r gwirfoddolwyr a’r Parch. Nan Powell-Davies o flaen y faner yn darlunio’r argyfwng hinsawdd

wrth glicio ar y tagiau hyn: #MakePollutersPay #colledadifrod #LossAndDamage.

Roedd hynny yn gyfle hefyd i annog pobl i alw heibio i’r capel i weld y faner a’r nwyddau Masnach Deg, pobl na fyddai wedi troi i mewn oni bai ein bod wedi eu cyfarfod yno.

Diolch i Llinos am ddod atom ac i’r rhai fu’n gwirfoddoli drwy’r dydd. Fe barhaodd ein sylw i degwch a chyfiawnder y Sul yn dilyn hefyd gyda phobl yn dal i lifo i’r Ŵyl o’n cwmpas a ninnau’n cael cofio am freuddwyd Martin Luther King am fyd o degwch a chyfiawnder a heddwch rhwng pobl a’i gilydd a mwynhau ein cymdeithas wythnosol dros baned Fasnach Deg.

*HP-D*

# Wythnos Ryngwladol o Weithredu dros Heddwch yn Wcráin, 30 Medi–8 Hydref

Cymdeithas y Cymod
The Fellowship of Reconciliation in Wales

**Nid yw heddwch iawn yn bosibl nes i ni beidio annog tywallt gwaed pobl Wcráin a Rwsia drwy anfon arfau i Wcráin. Daw heddwch drwy gadoediad, diplomyddiaeth a thrafodaethau.**

Mae Cymdeithas y Cymod yn apelio ar eglwysi, Cristnogion, pobl o bob ffydd a rhai heb ffydd yng Nghymru i ddarllen Datganiad grymus Vienna yn dilyn yr Uwchgynhadledd dros Heddwch yn Wcráin a gynhaliwyd ym Mehefin 2023, a gweithredu arno. Yng ngeiriau'r Datganiad: 'Credwn yn gryf fod rhyfel yn drosedd yn erbyn y ddynoliaeth ac nad oes datrysiad milwrol i'r argyfwng presennol.'

Dydd Sadwrn, 30 Medi, am 3.30 o'r gloch gwahoddwn y cyhoedd i ymgynnull o flaen Siop Awen Meirion ar Stryd Fawr y Bala i nodi dechrau Wythnos Ryngwladol o Weithredu (30 Medi–8 Hydref) ac i alw am gadoediad a thrafodaethau heddwch ar unwaith i ddwyn y rhyfel i ben.

Bydd y weithred hon o dystiolaeth yn dilyn encil ar y cyd rhwng Cristnogaeth 21 a Chymdeithas y Cymod fydd yn cael ei gynnal yn Eglwys Crist, y Bala. Mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb mewn dysgu sut mae gwreiddiau'r ddau fudiad yn ysbrydoli ein llwybrau i'r dyfodol ddod i'r encil.

Mae trefi eraill ledled Cymru hefyd yn trefnu digwyddiadau i nodi'r Wythnos Ryngwladol o Weithredu ac i alw am ddiwedd i'r rhyfel yn Wcráin. Bydd Côr Gobaith yn canu ar strydoedd Aberystwyth, a bydd eglwysi a grwpiau cymunedol yn trafod ac yn gweithredu ar Ddatganiad Vienna sydd i'w weld ar y dde ac ar wefan Cymdeithas y Cymod. Mae taflenni ar gael i'w rhannu.

Mae adnoddau ar gyfer addoli a thrafodaeth ar gael i annog myfyrdod meddylgar a galwad i weithredu drwy Gymdeithas y Cymod. Mae gwylnos Zoom bob nos Wener am 7.30 o'r gloch yn gyfle i ymuno efo pobl ar draws y byd i alw am heddwch yn Wcráin. Cawn ein herio i wneud y cysylltiad sydd rhwng y paratoi at ryfel, y fasnach arfau a her newid hinsawdd a dinistrio'r amgylchedd naturiol.

Am fwy o wybodaeth, ebostiwch cymdeithasycymod@gmail.com.

*Awel Irene*




Llun: https://unsplash.com/photos/8OHtC7fLjsc

### Datganiad o'r Uwchgynhadledd dros Heddwch yn Wcráin

Heddwch drwy ddulliau heddychlon. Cadoediad a thrafodaethau rŵan!

Rydym ni, drefnwyr yr Uwchgynhadledd dros Heddwch yn Wcráin, yn galw ar arweinwyr pob gwlad i weithredu i gefnogi cadoediad a thrafodaethau ar unwaith i ddod â'r rhyfel yn Wcráin i ben.

Rydym yn glymblaid eang ac amrywiol o ran gwleidyddiaeth ac yn cynrychioli mudiadau heddwch a chymdeithas ddinesig, gan gynnwys pobl ffydd mewn sawl gwlad. Rydym yn gwbl unedig yn ein cred bod rhyfel yn drosedd yn erbyn y ddynoliaeth ac nad oes unrhyw ddatrysiad milwrol i'r argyfwng presennol.

Rydym wedi ein dychryn a'n tristáu gan y rhyfel. Mae cannoedd o filoedd wedi eu lladd a'u hanafu, a miliynau wedi eu dadleoli ac yn dioddef trawma. Mae dinasoedd a phentrefi ar draws Wcráin a'r amgylchedd naturiol wedi cael eu chwalu.

Gall llawer mwy o farwolaethau a dioddefaint ddigwydd petai'r gwrthdaro'n gwaethygu i ddefnyddio arfau niwclear, risg sy'n uwch heddiw nag ar unrhyw gyfnod ers argyfwng taflegrau Ciwba.

Rydym yn condemnio goresgyniad anghyfreithlon Rwsia o Wcráin. Nid yw'r sefydliadau a grëwyd i sicrhau heddwch a diogelwch yn Ewrop wedi gweithio, ac mae methiant diplomyddiaeth wedi arwain at ryfel. Mae angen brys am ddiplomyddiaeth rŵan i ddod â'r rhyfel i ben cyn iddo ddinistrio Wcráin a bygwth y ddynoliaeth.

Rhaid i'r llwybr at heddwch gael ei sefydlu ar egwyddorion diogelwch cyffredin, parch at hawliau dynol rhyngwladol a'r hawl i bob cymuned wneud ei phenderfyniad ei hun. Rydym yn cefnogi pob trafodaeth sy'n sefyll dros resymeg heddwch yn hytrach nag afresymeg rhyfel.

Rydym yn cadarnhau ein cefnogaeth i drigolion Wcráin sy'n amddiffyn eu hawliau. Rydym yn ymrwymo ein hunain i gryfhau'r ddeialog efo'r rhai yn Rwsia a Belarws sy'n rhoi eu bywydau dan fygythiad drwy wrthsefyll rhyfel ac amddiffyn democratiaeth.

**Galwn ar ddinasyddion pob gwlad i ymuno â ni mewn Wythnos o Weithredu Rhyngwladol (Sadwrn, 30 Medi–Sul, 8 Hydref) gan alw am gadoediad a thrafodaethau heddwch ar unwaith i ddod â'r rhyfel hwn i ben.**

*Vienna, 11 Mehefin 2023*

'Rhaid i ni i gyd wneud ein rhan,
er mwyn i ni fod yn foddion i greu
heddwch.' (Albert Einstein)

## Taro'r Post

Annwyl gyd-ddarllenwyr *Cenn@d*,

Cefais gryn dipyn o syndod wrth ddarllen rhifyn 20 Medi 2023 o *Cenn@d*. Ac mi roedd yn syndod darllen geiriau caredig yr Athro Densil Morgan, Marian Beech Hughes, a'r Parchn Aled Davies a Huw Powell-Davies. Heblaw am fod yn gwbl annisgwyl, roedd eu geiriau graslon i gyd yn gwbl anhaeddiannol.

Do, fe fu cefnu ar *Y Goleuad* i greu *Cenn@d*, ar y pryd, yn gam anodd, a'r syniad o dorri ar 'draddodiad' cyfoethog o gyhoeddi enwadol yn teimlo fel brad o'r trysor a ymddiriedwyd i'n gofal. Ond, onid teimladau tebyg wynebodd y Bedyddwyr wrth ollwng *Y Seren* er mwyn creu *Cenn@d*? Diolch i Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb y Bedyddwyr am eu gweledigaeth, eu hymrwymiad a'u cefnogaeth i'r fenter o gyhoeddi papur ar draws y ffiniau enwadol arferol. Byddai wedi bod yn wych pe medrem fod wedi medru cynnwys mewnbwn colofnwyr *Y Tyst* i *Cenn@d*, a hynny er mwyn ein galluogi i adlewyrchu gweithgarwch Anghydffurfiaeth Gymraeg yn y dwthwn hwn a rhoi llais i obeithion ac i bryderon anghydffurfiol yr un pryd.

Oherwydd ymrwymiad yr enwadau a'r cydweithio rhyngom a'n gilydd, bu'r arbrawf i hybu cyhoeddi ar draws ffiniau enwadol yn llwyddiant, yn enwedig o gofio y daeth y Covid i'n gofidio, ac i atal ar weithgarwch yr eglwysi, am nifer o fisoedd. Anodd oedd cyhoeddi papur newydd heb newyddion! Ond roedd ein gallu i barhau i gyhoeddi'n wythnosol drwy'r cyfnod hwnnw yn dyst i greadigrwydd ac ymroddiad fy nghyd-olygyddion.

Bu'r cydweithio rhyngom a'n gilydd dros y blynyddoedd ers sefydlu *Cenn@d* yn hapus ac yn gyfeillgar iawn. Roedd y cyfarfodydd ben bore dydd Llun i ddwyn y rhifyn cyfredol o'r papur i'r wasg ynghyd â'r trafodaethau am ei gynnwys i'r rhifyn canlynol yn gyfeillgar, yn hwyliog, ac yn ddidrafferth. Carwn ddiolch o galon i'm cyd-olygyddion am eu hamynedd, eu brwdfrydedd a'u gofal diflino.

Nid yw'n rhwydd ymddihatru o flynyddoedd o chwilio am gynnwys i bapur newyddion! Hoffwn felly ofyn am faddeuant y rhai ohonoch a welodd neu a glywodd neges debyg i hon o'r blaen. Carwn ddiolch o galon i gyfranwyr cyson i'r *Cenn@d*. Gwerthfawrogwyd, ac fe werthfawrogir, eich cyfraniadau prydlon ac amserol, a'ch dawn i'n pryfocio i feddwl o'r newydd am ryw bwnc neu'i gilydd.

Carwn ddiolch i'r darllenwyr am eu hymatebion i erthyglau a ymddangosodd yn *Cenn@d* i'w cyhoeddi yn 'Taro'r Post'. A diolch hefyd am bytiau o newyddion – llun a chapsiwn cryno – o ddigwyddiadau, dathliadau a gweithgarwch yn ein capeli a gyrhaeddodd y papur. Dwi'n sicr y byddai'r golygyddion presennol yn falch o barhau i dderbyn cyfraniadau o'r fath!

Felly, gyd-ddarllenwyr a golygyddion *Cenn@d*, derbyniwch fy niolch am eich caredigrwydd.

*Watcyn James*

# Cyhoeddi rhestr enillwyr Medalau Gee ar gyfer 2023

Mae'n bleser gan Gyngor Ysgolion Sul Cymru gyhoeddi bod 11 o fedalau yn cael eu cyflwyno eleni – deg i ffyddloniaid yr ysgolion Sul, ac un i Sharon Rees, a dreuliodd flynyddoedd yn gweithio ym Mhen-rhys, ac sydd bellach yn ymbaratoi i ymddeol. Diolchwn iddi am ei chyfraniad nodedig yn y fro arbennig hon a dymunwn yn dda iddi ar gyfer y dyfodol.

Bydd y medalau hyn yn cael eu cyflwyno mewn gwasanaethau yn lleol dros yr wythnosau nesaf. Cofiwch fod modd enwebu eto ar gyfer 2024 – mae angen i bob cais ddod i law erbyn 30 Mehefin 2024.

Cyflwynir y medalau eleni i'r canlynol:

David Gwyn Howell Jones – Hermon, Cynwyl Elfed
Haulwen Lewis – Tabernacl, Pencader
Jane Heulwen Mair Jones – Rhydlwyd, Lledrod
Gwynfor Parry – Siloam, Talwrn, Llangefni
Eleri Ames – Capel y Groes, y Groes, Dinbych
Margaret Elizabeth Davies – Capel y Groes, y Groes, Dinbych
Robert Glyn Davies – Capel y Groes, y Groes, Dinbych
Nest Davies – Yr Allt-wen, Pontardawe
Hannah Rhydwen Jones – Yr Allt-wen, Pontardawe
Eiry Hannah Shopland – Yr Allt-wen, Pontardawe
Sharon Rees – Pen-rhys a'r Allt-wen, Pontardawe

*Aled Davies*
*Cyngor Ysgolion Sul Cymru*




**Cynhelir cyfarfod gwobrwyo**
Medalwyr De Cymru ar
***Bnawn Sadwrn Medi 30***
***yng Nghapel yr Alltwen, Pontardawe***
***am 1.30 y pnawn***
Lluniaeth ysgafn i ddilyn
Croeso cynnes i bawb
(*Cynhelir cyfarfod yn y Gogledd, manylion i ddilyn*)

# ‘Dringo’r ail fynydd: y dyfodol i eciwmeniaeth yng Nghymru?’ (Rhan 3)

## Darlith er cof am y Parch. J. Lloyd Jones

### Y Parch. Siôn Brynach
### Prif Weithredwr Cytûn, Eglwysi ynghyd yng Nghymru


### Eglwys Beuno Sant, Clynnog Fawr
### nos Fercher, 9 Awst 2023

A’r pwynt yw mai drwy addoliad y cawn ein tynnu ’nôl i galon y stori bob amser, ein hatgoffa o’r hyn ydym ni, a’r hyn nad ydym ni. Does dim angen i ni fod yn berffaith. Does dim angen i ni fod yn dduw; bod yn fodau dynol sydd angen i ni a bod yn agored i’r hyn sy’n cael ei roi gan Dduw. A dyfynnu araith y cyn-Archesgob Rowan eto, a dyma’r neges go iawn i ni fel mudiad eciwmenaidd ac eglwysi:

> We have to learn that our worth does not have to be created by our effort, and that our identity does not consist in what we can make and preserve for ourselves or in the conviction of our innocence and goodness. The story we now tell is of another kind of shared identity, in which a community finds its solidity in the knowledge that each one is faithfully present for the sake of all others; where mutual assurance of our attention and acceptance creates a foundation for trust. And the cornerstone of this is simply the recognition that this community exists in a state of ‘blessing’, alignment with the act of God, whose love is not apportioned as a reward.

Dyna’r newyddion da: bod Duw yn ein caru fel yr ydym, bod bywyd yr Ysbryd ynom ni. A bod y bywyd hwnnw yn ein tynnu ’nôl i’r geiriau hynny oedd wrth wraidd araith y cyn-Archesgob Rowan, sef ‘erfyn a breuddwydio’ (*pleading and dreaming*). Yn ein gweddïau rydym yn erfyn ar Dduw dros y byd. Rydym yn erfyn ar Dduw i agor y byd i’w bwrpas ef ac i’w gariad ef mewn ffyrdd newydd. Ond mae angen i ni hefyd freuddwydio gyda’r freuddwyd honno sy’n dweud ‘nad oes angen i bethau fod fel hyn’. Mae’n bosib inni fyw mewn ffordd wahanol. Mae’n fater – gan ailadrodd fy mhwynt blaenorol – o’n rhyddhau ein hunain oddi wrth ein storïau ein hunain sy’n ein caethiwo ni, ac yn hytrach i’n gosod ein hunain i fod yn rhan o stori Duw. A plis, ewch i hafan gwefan Cytûn – www.cytun.cymru – er mwyn gweld y cyfweliad a recordiodd y cyn-Archesgob Rowan gyda fi yn Tallinn.

Fe wnaeth Anthony Reddie hefyd bwynt digon tebyg yn yr araith a roddodd ef yng nghyfarfod blynyddol Undeb yr Annibynwyr yn Rhosllannerchrugog ddiwedd mis Mehefin. Adrodd storïau wnaeth Anthony Reddie yn fwy na heb ac, wrth gwrs, mae mewn llinach hynod anrhydeddus o gofio damhegion Iesu. Ei gwestiwn cychwynnol oedd: ‘Beth yw ystyr bod yn ddilynwr Iesu mewn amseroedd newidiol ac mewn cyd-destun sy’n newid?’ Soniodd sut yr ydym oll yn cerdded o gwmpas gyda rycsac ddychmygol sy’n cario’r trysorau hynny sy’n bwysig i ni, ac wrth gwrs mae’r trysorau yn y rycsac yn newid dros amser. Felly, o roi enghraifft bersonol i chi, ddeugain mlynedd yn ôl byddai fy rycsac ddychmygol wedi cynnwys camera. Erbyn hyn – ac rwy’n dal i fwyhau tynnu lluniau yn fawr iawn – mi fyddai lle’r camera wedi ei gymryd gan Cath a’r plant. Nhw yw fy nhrysor bellach, ac wrth gwrs mae’r broses hon yn bwysig.



Y cyn-Archesgob Rowan Williams yng Nghynhadledd Cyngor Eglwysi’r Byd, Tallinn

Fel y dywed Anthony, os na fedrwch chi adael pethau ar ôl, yna ffwndamentaliaeth yw’r canlyniad. Ond, wrth gwrs, os ydym ni’n gadael pethau i fynd jyst er mwyn rhoi’r ffad neu’r gimic diweddaraf yn ein rycsac, yna fe wnawn ni golli pethau pwysig hefyd ar hyd y daith. Ond mae’n bwysig i ni gofio hefyd nad yw pethau’r gorffennol o reidrwydd yn well na rhai’r dyfodol. Mae ’na densiwn parhaus – fel y nododd y cyn-Archesgob Rowan hefyd – rhwng ein gwreiddiau a’n taith, rhwng y ‘root’ a’r ‘route’, fel y disgrifiodd Anthony’r peth.

Ac, eto fel y dywedodd Anthony, mae ’na beryg hefyd i ni ddechrau diffinio ein hunain ar sail yr hyn **nad** ydym ni, a dyna sydd wedi digwydd i raddau trawiadol yn ein gwleidyddiaeth yma ym Mhrydain dros y degawd diwethaf. Mae ’na begynu difrifol wedi digwydd, a does dim enghraifft well o hynny, yn fy marn i, na’r drafodaeth fel ag yr oedd hi ynghylch Brexit cyn refferendwm 2016. Ond mae hyn i’w weld mewn cenhedloedd a gwladwriaethau eraill hefyd, fel sy’n amlwg yn hanes Trump yn yr Unol Daleithiau.

Felly sut mae mynd i’r afael â’r tensiwn hwn rhwng ‘root’ a ‘route’? Mae Anthony yn awgrymu bod Actau 2 – dal pethau’n gyffredin – yn dangos ffordd ymlaen. Y ffordd orau ymlaen yw gweithio ar y cyd, sicrhau bod ’na bobl o’ch cwmpas sy’n eich cadw’n atebol ac yn dweud pethau wrthych y byddai’n well gennych chi beidio â’u clywed; a mabwysiadu agwedd debyg i un Martin Luther King, a arferai ddweud bod modd i ni ‘disagree without being disagreeable’. Mae angen sgyrsiau adeiladol

(parhad ar y dudalen nesaf)

*'Dringo'r ail fynydd: y dyfodol i eciwmeniaeth yng Nghymru? (rhan 2)'*
*Darlith er cof am y Parch. J. Lloyd Jones*
*gan y Parch. Siôn Brynach*
*Prif Weithredwr Cytûn, Eglwysi ynghyd yng Nghymru*
*(parhad o dudalen 5)*

ynghylch yr ardaloedd llwyd hynny rhwng y ddau begwn ac mae 'na ddyletswydd ar yr eglwysi i sicrhau brawdoliaeth ar draws y gwahaniaethau er mwyn i ni ddod yn nes at yr hyn y mae Duw yn dymuno i ni fod.

A dyna ni. Mae sawl cwestiwn heriol tu hwnt i'r mudiad eciwmenaidd yng Nghymru ar hyn o bryd:

- Sut mae sicrhau gwireddu chwaeroliaeth a brawdoliaeth amlwg yn ein bywydau bob dydd fel yr oedd Sviatlana Tsikhanouskaya yn ein hannog i'w wneud?
- Sut mae symud y tu hwnt i'n gofidiau am niferoedd a'n ffocws rhemp, fel cymdeithas – ac eglwysi, ar dwf fel yr oedd Hartmut Rosa yn ei holi. Sut mae dod o hyd i gyseiniant, i *resonance*, gyda'n gilydd?
- Sut mae osgoi heriau'r 'eciwmeniaeth newydd' yr oedd y Patriarch Bartholomew yn ei disgrifio, a'r dwyn ynghyd sydd wedi bod o amrywiol enwadau er mwyn cydweithio i hyrwyddo agenda eithafol o 'werthoedd traddodiadol' sy'n bell iawn oddi wrth ddysgeidiaeth Iesu?
- Beth mae'n ei olygu i ni yng Nghymru i dorri'n rhydd fel enwadau, ac yn wir fel offerynnau eciwmenaidd, oddi wrth hualau'r storïau yr ydym ni'n eu hadrodd wrthym ni ein hunain ac sy'n rhoi ein hunaniaeth i ni er mwyn medru closio at y stori sydd gan Dduw ar ein cyfer? Ydi'r amser wedi dod i ni benderfynu bod rhai o strwythurau'r gorffennol yn ein rhwystro, yn hytrach na'n cynorthwyo, o ran cydweithio bellach? Yn wir, oes 'na ddyfodol i Cytûn? Ar y pwynt olaf hwn ynghylch a oes angen Cytûn, mae'n werth i ni ein hatgoffa ein hunain o'r sefyllfa yn yr Alban lle daeth yr offeryn eciwmenaidd i ben rai blynyddoedd yn ôl. Gweld ei golled fu'r hanes, felly mae 'na gryn ymdrechion ar y gweill ar hyn o bryd i'w atgyfodi. Ond mae hyn yn cael ei lesteirio gan nad yw'r broses o ddatgofrestru'r elusen wreiddiol y penderfynwyd ei dirwyn i ben wedi ei chwblhau, a bydd dechrau ailgofrestru yn sugno egni ac adnoddau.
- Ydym ni, fel yr holodd Anthony Reddie, yn rhy gaeth i'n 'root' a hynny'n ein rhwystro rhag datblygu ein 'route' at y dyfodol?

Yn ffodus ddigon, fel y dywedais ynghynt, mater i ymddiriedolwyr Cytûn mewn ymgynghoriad â'r arweinwyr eglwysig yw ateb y cwestiynau hyn. Ond fedrwn ni ddim llaesu dwylo. Mae'n rhaid i ni feddwl yn galed ac yn greadigol ynghylch yr hyn yr ydym ni'n dymuno i'r mudiad eciwmenaidd fod yn y dyfodol: y tasgau yr ydym eisiau iddo'u cyflawni, a'r adnoddau yr ydym ni am eu rhoi i Cytûn, er mwyn cyflawni'r tasgau hynny. Dyw'r sefyllfa bresennol lle mae gan Cytûn gyllideb weithredol o ddim ond £20,000 y flwyddyn, wedi talu costau staffio a swyddfa, jyst ddim yn gynaladwy. Felly, cwestiynau caled ac anodd, ond os na wnawn ni eu holi, yna parhau yn yr un hen rigol fydd ein hanes, ac i fi'n bersonol, mae bywyd yn rhy fyr i'w wastraffu ar hynny.

Felly, 'nôl at yr ail fynydd a chip ar y dyfodol o bosib. Fel y gŵyr rhai ohonoch, yn ogystal â gweithio i Cytûn, rwy'n gweithio hefyd fel offeiriad di-dâl i'r Eglwys yng Nghymru ac yn offeiriad ar hyn o bryd yn Eglwys Crist, Parc y Rhath, Caerdydd. Tan ddiwedd y llynedd Trystan Owain Hughes oedd Rheithor Eglwys Crist, Parc y Rhath, ac yn fy ngoruchwylio i fel curad yno. Y Nadolig diwethaf, cefais lyfr oddi wrth fy mentor a'm cyfaill yn dwyn yr enw *The Second Mountain: the quest for a moral life*. Ynddo mae'r awdur, David Brooks, sy'n golofnydd gyda'r *New York Times*, yn cyflwyno'r achos dros ddringo'r ail fynydd yn ein bywydau. Dyma'r syniad yn ei hanfod.

Wrth i ni gyrraedd oedran bod yn oedolyn yn ein harddegau hwyr, ein dauddegau a'n tridegau, rydym yn dringo'r mynydd cyntaf. Yn y cyfnod hwn, ein nod a'n hamcan yw ceisio ennill cydnabyddiaeth cymdeithas a meithrin statws o fewn y gymdeithas honno. Ein ffocws yn anad dim arall yw ennyn edmygedd cymdeithas, gan holi'r cwestiwn: beth all cymdeithas ei wneud i mi? Rwy'n siŵr ein bod ni i gyd yn adnabod rhai pobl sydd byth yn gadael y cyfnod hwn. Ond, ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o bobl, pan fyddan nhw'n cyrraedd canol oed, yn cael rhyw brofiad neu ddigwyddiad sy'n mynd â nhw i lawr i'r dyfnderoedd – naill ai'n llythrennol neu'n ffigurol. I fi, cael diagnosis o ganser yn 48 oed ydoedd, ac mae profiad o'r fath yn gwneud i chi ailystyried eich blaenoriaethau.

Mae'r ail fynydd, os y'ch chi'n dewis ei ddringo, yn gwbl wahanol. Mae eich ffocws, yn ôl David Brooks, ar yr hyn y medrwch chi ei wneud er mwyn cyfrannu at gymdeithas. Felly, yn ystod cyfnod y mynydd cyntaf, rydym ni'n canolbwyntio ar yr hyn y medrwn ni ei gael oddi wrth gymdeithas. Ond erbyn cyrraedd yr ail fynydd, mae ein ffocws ar yr eithaf arall. Ein ffocws nawr yw beth fedrwn ni ei wneud er mwyn cyfrannu at gymdeithas? Felly'r cwestiwn y byddwn i'n ei holi – yng ngoleuni her Rowan Williams ac Anthony Reddie fod angen i ni newid y trysorau yn ein rycsac a pheidio â bod yn gaeth i storïau'r gorffennol – yw: tybed nad yw hi'n bryd i'r mudiad eciwmenaidd yng Nghymru, ac yn wir yr eglwysi yng Nghymru sy'n aelodau o Cytûn, sylweddoli bod y mynydd cyntaf wedi ei ddringo, a'i bod hi'n awr yn amser ystyried o'r newydd sut i ddringo'r ail fynydd? Ystyried o'r newydd beth allwn ni fel Eglwysi Ynghyd yng Nghymru ei gyfrannu ar y cyd, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, yma yng Nghymru i fywyd ein cenedl yn hytrach na disgwyl am yr hyn y gall ein cenedl, ein cymdeithas, ei roi i ni.

*(i'w barhau)*

Gellir gwylio a darllen y ddarlith gyfan ar wefan Cytûn.

S4C

**Sul, 1 Hydref, am 8yh**
***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
Bydd Nia Roberts ar grwydr ym mro Eisteddfod Genedlaethol 2024, Rhondda Cynon Taf, yn rhannu hanesion difyr am yr ardal a'r cymoedd cyfagos. Ymysg ei gwesteion bydd Siân Thomas, Christine James, Dr Lyn Davies a Gwyn Morgan. Daw'r canu mawl o Gymanfa Gyhoeddi'r Eisteddfod yng Nghapel y Tabernacl, Efail Isaf. A chawn berfformiadau gan Gôr Tôn Teg a Chôr Godre'r Garth

BBC radio cymru

**Sul, 1 Hydref, am 7:30yb a 16:30yp**
***Caniadaeth y Cysegr***
Cyfieithiadau – Elen Ifan yn trafod emynau sydd wedi'u cyfieithu

**Sul, 1 Hydref, am 12yp**
Oedfa dan ofal Euron Hughes, Dolgellau

# Bendith y saithdegau

Bu'r flwyddyn 1973, hanner can mlynedd union yn ôl i eleni, yn un nodedig yn hanes diweddar Cristnogaeth yng Nghymru oherwydd y cynyrfiadau ysbrydol a brofwyd yn ystod y flwyddyn honno mewn llawer man.

Mewn ffilm o'r enw *73* a gynhyrchwyd gan y Parch. Gwyn Rhydderch ac a lansiwyd ym Mhabell Cytûn yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni, olrheinir 'hanes gwaith Duw ymhlith yr ifanc yn Llŷn ac Eifionydd ym 1973'. Gellir gwylio'r ffilm honno ar sianel YouTube Eglwys Bresbyteraidd Cymru: https://youtu.be/eVEVPYGojao.

Ond roedd yn gyfnod o gynyrfiadau ysbrydol mewn sawl man arall, nid lleiaf yng ngholegau Cymru, a'r bwriad yw cynnal cynhadledd undydd ar 21 Hydref 2023 ar y thema 'Bendith y Saithdegau' a fydd yn canolbwyntio'n arbennig ar yr hyn a ddigwyddodd yng Ngholegau Prifysgol Aberystwyth a Bangor, gan osod hynny ar gefndir ehangach y 1970au yng Nghymru a'r gwaddol heddiw.

Cynhelir y gynhadledd yn adeilad Eglwys Efengylaidd y Drenewydd (SY16 1HL) rhwng 10.30am a 3.30pm. Yn sesiwn y bore, bydd E. Wyn James yn olrhain yr hyn a ddigwyddodd yn Aberystwyth yn y cyfnod hwnnw, ac yna bydd Hywel Meredydd Davies yn troi ein golygon at Fangor. Wedyn, yn sesiwn y prynhawn, bydd nifer o bobl a oedd yn fyfyrwyr yn y colegau hynny yn y cyfnod dan sylw yn rhannu eu hatgofion a'u tystiolaeth, gan gynnwys Gwenan Job, Arfon Jones, Dafydd Picton Jones, Sylvia Prys Jones, Densil Morgan, Catrin Roberts, Bryn Williams ac Arfon Wyn. Y cadeirydd fydd John Treharne.

Bydd croeso cynnes i bawb fynychu'r gynhadledd honno, ac nid dim ond y rhai a oedd yn fyfyrwyr yn y 1970au! Ni chodir tâl, ond disgwylir i bawb wneud eu trefniadau cinio eu hunain. Bydd cyfieithu ar y pryd i'r Saesneg ar gael. Am fanylion pellach, cysylltwch â hywel@meredydd.net neu gwyn.rhydderch@ebcpcw.cymru.

Dewch i gael eich ysbrydoli a'ch herio ac i ddysgu gwersi ar gyfer y dyfodol.




# Breichiau Tragwyddol

Yn Efengyl Mathew 16:1–3, cawn ein ceryddu gan yr Iesu am fethu dirnad yr amserau. Golyga hyn, 'Sylwch yr hyn sy'n digwydd. Astudiwch a chymhwyswch Air Duw. Gweddïwch yn gyson.' Heddiw, gwelwn arwyddion gofid drwy'r byd i gyd. Gwelwn mewn amser real bethau y soniodd y Beibl amdanynt amser maith yn ôl. Ac nid yw'r hyn a welwn yn brydferth o bell ffordd. Llenwir ein golygon â therfysg, dryswch moesol, athrod, twyll, hedoniaeth, cynddaredd dilywodraeth, a chreulondeb. Bellach, nid digwyddiadau damcaniaethol yw'r pethau hyn i'w dadansoddi o bell. Digwyddant o'n hamgylch, a gall hyn fod yn frawychus. Ond ni ddiddyma pergyl ofal Duw byth!

Yn Eseia 41:10, dywedodd, 'Paid ag ofni, yr wyf fi gyda thi; paid â dychryn, myfi yw dy Dduw. Cryfhaf di a'th nerthu, cynhaliaf di â llaw dde orchfygol.' Safwn ynghanol tswnami o ddigwyddiadau amser y diwedd. Mae hyd yn oed y rhai ni ŵyr beth sy'n digwydd yn synhwyro bod rhywbeth rhagofnus yn y newyddion ac ar fin digwydd. Ond, er gwaethaf hynny, pery Duw i sicrhau ei bobl, 'Cryfhaf di, a'th nerthu.'

Rhydd Deuteronomium 33:26–7 ddarlun dramatig i ni o'r Duw hollalluog yn hedfan drwy'r ffurfafen i ddwyn cymorth i ni: 'Nid oes tebyg i Dduw Jesurun, sy'n marchogaeth trwy'r nef i'th gynorthwyo, ac ar y cymylau yn ei ogoniant. Duw'r oesoedd yw dy noddfa, ac oddi tanodd y mae'r breichiau tragwyddol.'

Cyfeirio at Israel wna'r term barddonol a serchog – Jesurun. Ei ystyr yng nghyfieithiad y Deg a Thrigain (Septuagint) yw 'anwylyd'. Yr ystyr lythrennol yw 'yr un sy'n gyfiawn'. Os ydych yn credu yn yr Iesu, mae'n eich cyfiawnhau. Rhydd i chwi'r rhodd o'i gyfiawnder ei hun gyda Duw.

Pan fyddwch mewn angen, mae'n marchogaeth i'ch cynorthwyo. Mae'n eich cynnal â'i gyfiawnder perffaith ei hun. Bydd ei freichiau tragwyddol yn cryfhau eich bywyd. Breichiau ni flinant ac ni wanychant byth. Dywed Salm 121:4 wrthym nad yw'n cysgu nac yn huno. Datgan wna Salm 100: 'da yw'r Arglwydd; mae Ei gariad hyd byth, a'i ffyddlondeb hyd genhedlaeth a chenhedlaeth'. Cariad hyd byth yw'r cariad nad oes terfyn na diwedd iddo.

Ai byw rydym yn yr olaf o ddyddiau amserau'r diwedd? Credaf ein bod. Ond erys ei 'addewidion gwerthfawr ... er mwyn i [ni] trwyddynt ddianc o afael llygredigaeth y trachwant sydd yn y byd' (2 Pedr 1:4). Yr Iesu yw 'ein Bugail Da' (Ioan 10:11). Ef yw'r 'ffordd, y gwirionedd, a'r bywyd' (Ioan 14:6). Ohono y llifa'r 'dŵr bywiol' (Ioan 4:10). Medrwn fwrw ein holl bryder arno 'oherwydd mae gofal ganddo [amdanom]' (1 Pedr 5:7).

Dylai digwyddiadau amserau'r diwedd atgyfnerthu ein ffydd a'n penderfyniad. Gwireddir y Gair sy'n sylfaen i'n bywydau. Er i ddynion melltigedig gyflawni gweithredoedd ffiaidd ac anghredadwy, dywed Duw wrthym yn Salm 37:1–2, 'Na fydd yn ddig wrth y rhai drygionus, na chenfigennu wrth y rhai sy'n gwneud drwg, oherwydd fe wywant yn sydyn'.

Yng ngeiriau Hebreaid 4:16, 'Felly, gadewch inni nesáu mewn hyder at orsedd gras, er mwyn derbyn trugaredd a chael gras yn gymorth yn ei bryd.' Medrwn nesáu ato ef mewn llawn hyder ffydd gan mai gras yw ei orsedd. Wrth ei orsedd canfyddwn fod gras yn gymorth hawdd ei gael mewn amser o ofid ac angen – fel 'nawr!

*E. Gwynne Parry*
*Cilgwri*

# *Gair Duw ar Waith*
## gan Denzil I. John

### Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd




**Pennod 1**
**Gweddio'n gyson Mathew 6:5–13 | 1 Hydref**


### Gweddi

Sanctaidd Dduw, plygwn yn wylaidd ac yn ostyngedig mewn gweddi a gofyn i ti ein tywys wrth i ni ddod ger dy fron. Bydd yn drugarog gyda ni wrth i ni gropian i'th gwmni ac ystyried y myfyrdod hwn. 'Arglwydd, dysg i ni weddïo, priod waith pob duwiol yw.' Amen.

### Darlleniad: Mathew 6: 5–13

### Cyflwyniad

Un o nodweddion bywyd Iesu yn yr Efengylau oedd ei fod yn gweddïo'n gyson. Mae'n rhaid bod hyn wedi creu argraff gref ar y disgyblion gan iddynt ofyn iddo eu dysgu i weddïo. Tybiwn yn sicr fod y werin Iddewig yn gyfarwydd â'r hyn a ddigwyddai yn y synagogau, a byddai'r defosiwn yn gyfarwydd iddynt. Byddent yn siŵr o fod yn medru adrodd darnau helaeth o'r defosiwn Iddewig ar eu cof, yn arbennig y Salmau, a phrin bod angen i neb eu dysgu i ddilyn hynny.






Eto, roedd rhywbeth yng ngweddïo Iesu oedd yn wahanol ac yn peri iddynt ofyn am help i weddïo fel y gwnâi ef.

Ceir cyfeiriadau at weddïau Abraham, Jacob a Samson, Dafydd a Daniel, a llu o gymeriadau amlwg eraill yr Hen Destament. Ceir sawl cyfeiriad yn llythyron Paul at weddi, ac anogai'r apostol ei gyfeillion i weddïo yn ddi-baid. Ceir gweddïau preifat, personol, teuluol a chyhoeddus, a gall y gweddïau hyn gynnwys sawl gwedd, megis addoliad, cyffes, diolchgarwch, eiriolaeth ac ymgysegriad. Yn y gyfres hon o fyfyrdodau rhoddir gweddïo fel rhan ymarferol o fywyd yr eglwys gan ei fod yn rhan sylfaenol ac anhepgorol o fywyd y credadun a'r gynulleidfa. Beth bynnag arall a wna eglwys wrth fyw'r ffydd, bydd angen ymarfer gweddi fel hanfod ein byw. Fel anadlu'r corff, bydd yr enaid yn gweddïo'n reddfol.

### Myfyrdod

Yn ystod y gyfres hon o fyfyrdodau cyfeirir at yr amrywiol agweddau o fyw'r ffydd, ond prin bod modd gwneud dim heb ofyn am arweiniad y Tad Nefol wrth gychwyn ar y gwaith. Ni ellir disgwyl bendith Duw ar ein hymdrechion heb ein bod yn cyflwyno'r gweithgaredd a'n cyflwyno ein hunain yn gyntaf.

Deallwn fod nifer o eglwysi yng Nghymru wedi hepgor oedfaon defosiynol. Bydd aelodau'r eglwysi yn tybied na allant weddïo heb gael eu hyfforddi i wneud. Ceir digon o ddeunyddiau mewn llyfrau pwrpasol bellach, a diolch i'r Cyngor Ysgolion Sul am sicrhau deunyddiau amrywiol eu pwyslais. Os digwydd bod eglwysi yn brin o ddoniau cyhoeddus, onid dyna gyfle i eglwysi mewn pentref neu dref ddod ynghyd naill ai yn y capel neu ar aelwyd teulu? Nid oes cyfyngiad nac amod ar hyd y cyfarfod, boed yn hanner awr neu'n awr a hanner. Nid oes rheol chwaith am hyd gweddi, ond ei bod yn ddidwyll a naturiol.

### Gweddi

Diolch i ti, Nefol Dad, am ganiatáu i ni gael dod ger dy fron a rhannu mewn sgwrs â thi. Diolch am ein cynorthwyo i fod yn dy gwmni ac am y fendith a deimlwn wrth wneud hynny. Mae dy gwmni di fel gwres i berson rhynllyd a diod i berson sychedig, yn fwyd i'r sawl sy'n llwgu a chyfeiriad i'r bobl sy'n crwydro'n ddibwrpas. Amen.

### Cwestiynau i'w hystyried

1. A oes perygl i Gristnogion ofyn i Dduw fendithio cynlluniau aelodau'r eglwys, yn hytrach na cheisio meddwl Duw ar gyfer gweithgareddau'r eglwys?
2. Beth yw eich ymateb i'r cwpled sy'n dweud: 'Llawer gwell na gweddi faith / yw gweddi fer mewn dillad gwaith'?
3. I ba raddau y bydd gweithgareddau eglwys/ cyfundeb/ enwad yn codi o daerineb defosiwn cwrdd gweddi neu gynhadledd?
4. Pa fath o bennawd ar raglen newyddion neu mewn papur dyddiol sy'n peri eich bod yn offrymu gair o weddi yn y fan a'r lle? Beth fyddai amcan y weddi honno?
5. Wrth glywed am unrhyw weithred ysgeler, fyddwch chi'n gweddïo dros y troseddwr neu'r drwgweithredwr â'r un taerineb â'r dioddefwr yn yr hanes?

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru